

Chwefror 8^{fed} 2023

Annwyl Riant / Ofalwr

Streic Arfaethedig gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol

Fel y cofiwch, mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) wedi cynnal pleidlais aelodau ac wedi cadarnhau y byddant yn mynd ar streic am gyfanswm o 4 diwrnod, gan ddechrau ar Chwefror 1^{af} 2023. Bydd yr ail o'r dyddiau hyn yn digwydd ar Chwefror 14^{eg}. Mae staff addysgu a staff cymorth yn gymwys i fod yn aelodau o'r NEU ac felly mae'n effeithio ar weithlu ein hysgol.

O dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974, rhaid i'r ysgol gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw staff a disgyblion yn agored i risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch. Yng ngoleuni'r streic a'r effaith ddilynol ar lefelau staffio, mae hyn yn cynnwys cynnal asesiad risg llawn i benderfynu a fydd yr ysgol yn gallu agor yn ddiogel, a sicrhau goruchwyliaeth ddigonol i bob dysgwr o fewn a'r tu allan i wersi. Fel pennaeth, rwyf i, ynghyd ag uwch gydweithwyr a llywodraethwyr, wedi gwneud asesiad risg ac wedi ystyried yr effaith ar ddysgwyr. Fel ar y diwrnod streic blaenorol, fel tîm, rydym wedi cytuno y bydd yr ysgol, ar ddydd Mawrth Chwefror 14^{eg}:

- AR GAU i BOB myfyriwr ym mlwyddyn 7, 8 a 9
- AR AGOR i BOB myfyriwr ym mlwyddyn 10 & 11
- AR AGOR i BOB myfyriwr ym mlwyddyn 12 & 13

Sylwch hefyd y byddwn yn bwrw ymlaen â'r Noson Opsiynau ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 9 yn ôl ein cynllun ar y dyddiad hwn rhwng 4.00pm a 6.00pm.

I ddysgwyr sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim, bydd cyfle i gasglu cinio pecyn o gegin yr ysgol drwy ein Timau Arlwyo. Os hoffech dderbyn y cynnig o becyn bwyd i'ch plentyn/plant cymwys, cwblhewch y cais drwy ddefnyddio'r ddolen: [Dolen ar gyfer Pecyn bwyd](#)

Rwy'n gwerthfawrogi ac yn ymddiheuro am yr effaith y mae hyn yn ei gael arnoch chi a'ch plentyn/plant. Yn wahanol i'r pandemig, pan gafodd rheolau a rheoliadau penodol eu diwygio i ddarparu ar gyfer grwpiau o ddysgwyr, canlyniad yr asesiad risg yn unig yw'r penderfyniad ynghylch cau'n llawn neu'n rhannol, ac ni allwn ddarparu ar gyfer goruchwyllo unrhyw ddysgwyr ac eithrio'r rhai a amlinellir uchod, na darparu gwaith i'r rhai sydd gartref. Fodd bynnag, rydym wedi darparu rhai gweithgareddau cyffredinol sy'n briodol i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 7, 8 a 9 i'w cadw'n brysur mewn ffordd adeiladol ar y diwrnod hwnnw – gallwch ddod o hyd iddynt ar y dudalen we hon o dan 'Cau Rhannol Oherwydd Gweithredu Streic':

<https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/cy/remote-learning/>. Byddant hefyd yn cael eu postio yn TEAM grŵp blwyddyn eich plentyn.

Diolch am eich cefnogaeth, amynedd a dealltwriaeth o dan yr amgylchiadau hyn.
Gyda chofion caredig,

Ian Gerrard
Pennaeth